Cyfenw	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
Enw(au) cyntaf		0

TGAU

3300N20-1

A23-3300N20-1

DYDD MERCHER, 15 TACHWEDD 2023 – BORE

MATHEMATEG
UNED 2: LLE CANIATEIR CYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer yr arholiad hwn.

Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

Cymerwch π fel 3·14 neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech chi roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn **6**, bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.

I'r Arholwr yn Unig		
Cwestiwn	**Marc Uchaf**	**Marc yr Arholwr**
1.	**2**	
2.	**2**	
3.	**2**	
4.	**3**	
5.	**6**	
6.	**5**	
7.	**2**	
8.	**7**	
9.	**3**	
10.	**2**	
11.	**2**	
12.	**3**	
13.	**2**	
14.	**4**	
15.	**2**	
16.	**3**	
17.	**4**	
18.	**2**	
19.	**4**	
20.	**5**	
Cyfanswm	**65**	

3300N201 01

NOV233300N20101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

JD/GR*(A23-3300N20-1)

Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

Arwynebedd trapesiwm = $\frac{1}{2}(a + b)h$



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

1. Ysgrifennwch y term nesaf ym mhob un o'r dilyniannau isod.

(a) 53, 80, 107, 134, ... [1]

....

(b) 24, 72, 216, 648, ... [1]

....

2. Ysgrifennwch yr enw arbennig ar gyfer y llinell sydd wedi'i thynnu ar bob un o'r cylchoedd isod.

(a)



.... [1]

(b)



.... [1]

3300N201 03

3. (a) Mae person yn taflu darn arian teg unwaith.
Ar y raddfa debygolrwydd isod, marciwch â saeth (*arrow*) y tebygolrwydd bod y person yn taflu pen. [1]



(b) Mae person yn taflu dis teg 6-ochr unwaith.
Ar y raddfa debygolrwydd isod, marciwch â saeth y tebygolrwydd bod y person yn taflu 5. [1]



Arholwr yn unig

4. (a) (i) Pa un o'r onglau hyn yw'r ongl **lem fwyaf**?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

175° 45° 355° 85° 95°

(ii) Pa un o'r onglau hyn yw'r ongl **aflem leiaf**?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

95° 75° 275° 105° 185°

(b) Mae'r llinell *AB* yn cael ei dangos isod.



Tynnwch linell, yn baralel i *AB*, drwy'r pwynt *C*. [1]

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

5. (a) Mae Arwel yn ysgrifennu rhestr o chwech rhif:

3 3 4 4 5 6

Mae Arwel yn ychwanegu rhif arall at ei restr.
Mae modd ei saith rhif yn **odrif**.
Pa rif mae Arwel yn ei ychwanegu at ei restr? [1]

....

....

Y rhif mae Arwel yn ei ychwanegu at ei restr yw ....

(b) Mae Ffion yn ysgrifennu rhestr o saith rhif:

3 8 4 1 2 8 9

Beth yw canolrif saith rhif Ffion? [2]

....

....

....

Canolrif saith rhif Ffion yw ....

(c) Mae Marc yn ysgrifennu dau rif:

2 7

Mae Marc yn ychwanegu rhif arall at ei restr.
Cymedr y tri rhif yw 5.

Pa rif mae Marc yn ei ychwanegu at ei restr?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

....

....

....

....

....

Y rhif mae Marc yn ei ychwanegu at ei restr yw ....

3300N201
05

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

6. *Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae Dylan ac Angharad yn gwneud ciwboidau a chiwbiau gan ddefnyddio ciwbiau centimetr.



Mae Dylan yn gwneud y ciwboid isod.



Mae Angharad yn gwneud ciwb. Hyd ymylon y ciwb yw 4 cm.

Faint **mwy** o giwbiau centimetr mae Angharad yn eu defnyddio na Dylan?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3 + 2 TCY]

....

....

....

....

....

....

....

....

....

....

....

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

7. Ysgrifennwch 27 munud ac 11 eiliad mewn **eiliadau**. [2]

....

....

27 munud ac 11 eiliad = ... o eiliadau

8. (a) Darganfyddwch beth yw gwerth $\frac{144 \times 30^2}{18}$.

Ysgrifennwch eich ateb yn gywir i'r mil agosaf. [2]

....

....

(b) Cyfrifwch 4% o £250. [2]

....

....

(c) Mae Laura yn meddwl am rif.

$\frac{1}{5}$ o'i rhif yw 14.

Beth yw 50% o rif Laura? [3]

....

....

....

....

....

50% o rif Laura yw ....

3300N201
07

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

9. Ysgrifennwch fynegiad (*expression*), yn nhermau x, i gynrychioli pob un o'r canlynol.

(a) 5 mwy nag x [1]

....

(b) x llai na 3 [1]

....

(c) hanner x [1]

....

10. (a) Beth mae 2 litr yn hafal iddo, yn fras (*approximately*)?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

2 peint 3 peint 3·5 peint 4·4 peint 200 peint

....

....

(b) Beth mae 32 km yn hafal iddo, yn fras?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

16 milltir 20 milltir 32 milltir 51 milltir 64 milltir

....

....

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr
yn unig

11. (a) Mae cas pensiliau yn cynnwys rhai beiros.
Mae un beiro yn cael ei ddewis ar hap.
Y tebygolrwydd bod y beiro sydd wedi'i ddewis yn lliw glas yw 45%.
Beth yw'r tebygolrwydd bod y beiro sydd wedi'i ddewis **ddim yn lliw glas**? [1]

(b) Mae Dewi yn taflu dis teg 6-ochr.
Beth yw'r tebygolrwydd bod Dewi yn taflu rhif cysefin?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

$\frac{1}{6}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{5}{6}$ $\frac{1}{3}$ $\frac{2}{3}$

12. (a) Datryswch yr hafaliad $8a + 3 \cdot 5 = 27 \cdot 5$. [2]

3300N201
09

(b) Mae peiriant rhifau yn cael ei ddangos isod.



Cyfrifwch yr ALLBWN pan mae'r MEWNBWN yn 1·5. [1]

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

13. Mae rhif **degol** wedi'i ysgrifennu ar gerdyn.
Rydych chi'n cael 3 cliw i'ch helpu chi i ddarganfod y rhif ar y cerdyn.
Cliw 1: Mae'r rhif rhwng 5 ac 12 yn gynhwysol (*inclusive*).
Cliw 2: Mae'r rhif yn lluosrif 2·3.
Cliw 3: Mae sgwâr y rhif yn fwy na 50 ond yn llai na 120.

Beth yw'r rhif degol ar y cerdyn? [2]

....

....

....

....

....

....

....

....

Y rhif degol ar y cerdyn = ...

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

14. (a) Enrhifwch $\dfrac{18\cdot4^3+8\cdot79}{7\cdot3^2}$.

Rhowch eich ateb yn gywir i'r 10 agosaf. [2]

(b) Enrhifwch $\sqrt{1456}\times3\cdot7$.

Rhowch eich ateb yn gywir i 1 lle degol. [2]

15. Mae Kamal yn gweithio am gyfanswm o 36 awr mewn un wythnos.
Ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher, mae e'n gweithio yr un nifer o oriau bob dydd.
Ar ddydd Iau a hefyd dydd Gwener, mae e'n gweithio am hanner cymaint o amser ag ar unrhyw un o'r tri dydd cyntaf.
Dydy Kamal ddim yn gweithio ar ddydd Sadwrn na dydd Sul.

Am faint o oriau mae Kamal yn gweithio ar ddydd Gwener? [2]

Mae Kamal yn gweithio am .... o oriau ar ddydd Gwener

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

16. (a) Trawsfudwch (*translate*) y triongl 6 sgwâr i'r chwith a 2 sgwâr i lawr. [1]



Arholwr yn unig

(b) Adlewyrchwch y triongl yn y llinell $y = 1$. [2]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr
yn unig

17. Cyfanswm hyd y siâp isod yw 35 cm.
Mae'r siâp yn cael ei dorri yn 3 rhan, A, B ac C.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Mae hyd A yn $\frac{2}{5}$ o gyfanswm hyd y siâp.

Mae hydoedd B ac C yn ôl y gymhareb 1 : 6.

Darganfyddwch hyd **pob** rhan (*each part*) o'r siâp.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [4]

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

18. Mae'r diagram isod yn dangos graff y llinell syth $y = 2x + 4$ ar gyfer gwerthoedd x o –3 i 3.



(a) Tynnwch y llinell $x = 2$ ar y papur graff. [1]

(b) Ysgrifennwch beth yw cyfesurynnau'r pwynt lle mae'r llinellau $y = 2x + 4$ ac $x = 2$ yn croestorri (*intersect*). [1]

....

....

....

Cyfesurynnau'r pwynt lle mae $y = 2x + 4$ ac $x = 2$ yn croestorri = (................ , ...)

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

19. Mae'r tabl isod yn dangos canrannau symiau (*amounts*) gwahanol.
Mae tri o'r gwerthoedd wedi'u cyfrifo.

Cwblhewch y tabl. [4]

		Swm	
		£36	**£** ....
Canran	.... **%**	£3.60	£9.20
	13·5%	£	£12.42

....

....

....

....

....

....

....

....

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

20. Mae'r diagram yn dangos dau gylch sy'n ffitio mewn petryal.
Mae canol y cylch bach yn union o dan (*directly below*) canol y cylch mawr.
Diamedr y cylch bach yw 8 cm.
Mae **radiws** y cylch mawr 2 cm yn fwy na **radiws** y cylch bach.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Cyfrifwch beth yw cyfanswm arwynebedd y rhannau o'r petryal sydd wedi'u tywyllu. [5]

DIWEDD Y PAPUR

© WJEC CBAC Cyf.

Rhif y Cwestiwn	Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.

Arholwr yn unig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

ⓗ WJEC CBAC Cyf.